Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru: Cyflwyniad

## Briff Ymchwil

Mai 2019



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Research.Service@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



# Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru: Cyflwyniad
## Briff Ymchwil

Mai 2019

**Awduron:**
David Dallimore

**Trosolwg o'r papur:**
Y papur briffio hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o bapurau sy'n darparu canllaw cyflym ar addysg a gofal plentyndod cynnar (ECEC). Mae'n cyflwyno'r cysyniad o addysg a gofal plentyndod cynnar, yn dangos tystiolaeth am wahanol ddulliau gweithredu o ran addysg a gofal plentyndod cynnar, ac yn cysylltu hyn â pholisi cyfredol yng Nghymru.

Lluniwyd y papur hwn ar gyfer gwasanaeth Ymchwil y Senedd y Cynulliad fel rhan o'r Cynllun Cymrodoriaeth Academaidd i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad wrth iddynt graffu ar y ddarpariaeth addysg a gofal plentyndod cynnar. Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod cefnogaeth Prifysgol Bangor a alluogodd Dr Dallimore i gymryd rhan yn y gymrodoriaeth hon.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **1**

**Beth yw Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar?** ........ **2**

Pam mae addysg a gofal plentyndod cynnar yn bwysig? ........ 2

Tystiolaeth gwaith ymchwil ........ 3

**Cysyniadau polisi addysg a gofal plentyndod cynnar** ........ **5**

Sut mae cymdeithasau yn ystyried plentyndod ........ 5

Teulu o'i gymharu â'r Wladwriaeth *ac* Addysg o'i gymharu â Gofal ........ 6

**Addysg a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru** ........ **8**

Teuluoedd neu Blant yn Gyntaf? ........ 8

Addysg neu ofal? ........ 9

Ymyrraeth gynnar ........ 10

**Beth yw'r ffordd ymlaen o ran addysg a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru?** ........ **11**



# Cyflwyniad

Yng Nghymru, fel ym mhob economi uwch, mae diddordeb cynyddol wedi bod mewn darparu gofal plant ac addysg gynnar fforddiadwy o ansawdd da fel sylfaen ar gyfer dysgu gydol oes llwyddiannus, integreiddio cymdeithasol, datblygiad personol a chyflogadwyedd yn ddiweddarach. Ymhellach, gall y graddau y mae gofal plant digonol ar gael wella **cyfranogiad rhieni, ac yn arbennig menywod, yn y gweithlu llafur**, gan felly gyfrannu at gydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn gwaith cyflogedig a gwaith di-dâl, yn ogystal â chyfrannu at leihau tlodi plant.

Ond gall cynyddu hygyrchedd, fforddiadwyedd ac, yn bwysicaf oll, gwella ansawdd, fod yn dasg anodd pan fydd cyllidebau cyhoeddus yn cael eu cyfyngu. O ganlyniad, mae lluniwyr polisi yn wynebu penderfyniadau anodd wrth flaenoriaethu adnoddau, o ran gwasanaethau wedi'u targedu neu wasanaethau cyffredinol, a rhwng opsiynau polisi sy'n cefnogi datblygiad plant yn bennaf a'r rhai sydd wedi'u cynllunio i wella cyflogadwyedd rhieni.

Yn y papur briffio hwn, rydym yn cyflwyno trosolwg o'r dystiolaeth ymchwil ddiweddaraf am yr hyn sy'n effeithiol o ran y blynyddoedd cynnar, ac yn trafod hyn o fewn cyd-destun gwahanol ddulliau rhyngwladol a fabwysiadwyd wrth ddatblygu addysg y blynyddoedd cynnar a pholisi gofal plant.

# Beth yw Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar?

Addysg a gofal plentyndod cynnar yw'r term mwyaf cyffredin **a ddefnyddir yn eang yn rhyngwladol** i gyfeirio at unrhyw drefniant a reoleiddir sy'n darparu gofal a / neu addysg i blant o'u genedigaeth hyd at oed gorfodol ysgol gynradd, waeth beth fo'r lleoliad, y cyllid, yr oriau agor na chynnwys rhaglenni. Mae'n cynnwys gofal dydd mewn canolfan ac yn y cartref, ac mae hefyd yn cynnwys darpariaeth breifat a darpariaeth a ariennir yn gyhoeddus, gofal dydd llawn a gofal dydd ar ffurf sesiynau.

Yn unol â hynny, mae gwasanaethau addysg a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru yn cynnwys lleoliadau gofal plant fel meithrinfeydd dydd, gwarchodwyr plant cofrestredig, cylchoedd chwarae cyn-ysgol, cylchoedd meithrin ac ysgolion sy'n darparu addysg gynnar nad yw'n orfodol yn y Cyfnod Sylfaen. Fel arfer, nid yw gofal anffurfiol gan rywun ar wahân i rieni, fel neiniau a theidiau, perthnasau eraill neu ffrindiau, er yn rhan bwysig iawn o ddarpariaeth plentyndod cynnar, yn cael ei reoleiddio ac felly nid yw'n cael ei ystyried yn gyffredinol o fewn polisi addysg a gofal plentyndod cynnar.

Er bod ei fod yn faes sy'n cael ei gydnabod fwyfwy fel pwnc ar wahân, mae hefyd yn gorgyffwrdd â nifer o feysydd polisi eraill gan gynnwys addysg, cyflogaeth a chydraddoldeb rhyw.

## Pam mae addysg a gofal plentyndod cynnar yn bwysig?

Nid yw dysgu ac addysg yn dechrau yn yr ysgol, na, maent yn dechrau o enedigaeth plentyn bach. Mae'r blynyddoedd cynnar o enedigaeth plentyn hyd at ei oed ysgol gorfodol yn cael eu cydnabod fel y rhai mwyaf ffurfiannol ym mywydau plant am eu bod yn gosod y sylfeini ar gyfer datblygiad gydol oes plant a'u patrymau fel oedolion. Yn y cyd-destun hwn, derbynnir **yn rhyngwladol** bod addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd da bellach yn sylfaen hanfodol ar gyfer dysgu gydol oes llwyddiannus, ar gyfer integreiddio cymdeithasol, ac ar gyfer datblygiad personol, iechyd a chyflogadwyedd diweddarach pob plentyn. Mae'n cael ei werthfawrogi fel ffordd o sicrhau twf cynaliadwy, cynhwysol, ac economaidd tra bod systemau addysg a gofal plentyndod cynnar hygyrch o ansawdd da yn bwysig i rymuso unigolion i gael bywydau llwyddiannus. O ganlyniad, mae argaeledd addysg a gofal plentyndod cynnar ar gyfer plant ifanc wedi cynyddu mewn llawer o economïau datblygedig, ac wrth i'r ddarpariaeth gynyddu, mae'r sylfaen dystiolaeth hefyd wedi cynyddu i gefnogi datblygiad polisi addysg a gofal plentyndod cynnar effeithiol.



**Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru: Cyflwyniad:** Briff Ymchwil

## Tystiolaeth gwaith ymchwil

Dros y degawd diwethaf mae'r twf sylweddol o ran y wybodaeth sydd ar gael am ddatblygiad yr ymennydd ym mlynyddoedd cynnar bywyd yn cynnig golwg mwy soffistigedig ar sut y gall anfanteision yn amgylchiadau bywyd plant ifanc daflu eu datblygiad oddi ar ei echel. Yn benodol, rydym yn deall llawer mwy nag a wnaethom erioed am effeithiau tlodi o ran incwm ar ddatblygiad plentyndod cynnar.

> Dengys gwaith **Ymchwil** a oedd yn defnyddio **Astudiaeth Carfan y Mileniwm**, erbyn maent yn bump oed mae tua thraean o blant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru eisoes ar ei hôl hi ar draws yr ystod o ganlyniadau gwybyddol, ac mae bron i hanner y plant sydd yn y grwpiau perfformio isaf ar ddechrau'r ysgol gyn-radd yn aros ar ei hôl hi pan maent yn saith oed, yn un ar ddeg oed ac yn bedair ar ddeg oed.

Mae'r rhesymau dros y bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion yn gymhleth, ond gwyddom fod ffactorau strwythurol fel tlodi, ochr yn ochr â chefndir teuluol, yr amgylchedd dysgu yn y cartref ac arddulliau rhianta yn ddylanwadau allweddol. Mae gwaith ymchwil diweddar yng Nghymru hefyd wedi amlygu sut y mae amrywiaeth eang o **brofiadau niweidiol mewn plentyndod cynnar** (fel esgeulustod, problemau gyda sylweddau a theuluoedd yn chwalu) yn effeithio'n negyddol, nid yn unig ar ddatblygiad plant, ond cânt effaith fawr ar iechyd gydol oes ac ymddygiad cymdeithasol oedolion, ac maent hefyd yn cyfrannu at ddiffyg symudedd rhwng cenedlaethau, yn arbennig, y cyfle i blant ennill statws cymdeithasol uwch na'u rhieni.

Mae'r corff cynyddol hwn o dystiolaeth ymchwil yn dangos fod y blynyddoedd cynnar yn egin ar gyfer anghydraddoldeb gydol oes, ond mae gennym dystiolaeth helaeth hefyd sy'n dangos y gall darparu addysg a gofal plentyndod cynnar helpu i liniaru rhai effeithiau negyddol mewn amgylchiadau penodol, a helpu i unioni anghydraddoldeb yn gynnar mewn bywyd.

Canfu astudiaethau hydredol mawr, gan gynnwys yr **Astudiaeth EPPE** yn y DU (ac mae astudiaethau tebyg yn Norwy, yr Iseldiroedd, yr Eidal a Sweden) bod effeithiau parhaol addysg a gofal plentyndod cynnar ar ddatblygiad gwybyddol plant a'u cyflawniad ysgol. Maent hefyd yn cadarnhau bod profiadau cynnar o gymdeithasu gyda chymheiriaid mewn lleoliadau ffurfiol yn hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol, hunanreoleiddio ac ymreolaeth. Serch hynny, mae consensws cryf yn sgîl **tystiolaeth ryngwladol** na ellir sicrhau'r buddion hyn oni bai y darperir amodau penodol, fel, dechrau'n gynnar, gwasanaethau o safon uchel, cwricwlwm addysg gynnar effeithiol ac ymgysylltiad rhieni.

Mewn gwledydd lle mae gwasanaethau addysg a gofal plentyndod cynnar wedi'u hymestyn yn y blynyddoedd diwethaf, fel Denmarc, Ffrainc, Norwy a'r Almaen, mae **astudiaethau** yn dweud bod addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd da yn fuddiol, yn enwedig i'r plant mwyaf difreintiedig, y mae eu buddion ym mhob agwedd ar ddatblygiad plant (eu datblygiad gwybyddol, eu datblygiad cymdeithasol a'u datblygiad emosiynol), yn fwy nag ar gyfer plant cyffredin. Ond ymddengys mai plant sy'n agored i niwed sy'n elwa fwyaf o addysg a gofal plentyndod cynnar pan gaiff ei ddarparu mewn amgylchedd cymysg lle mae plant dan anfantais a phlant nad ydynt o dan anfantais yn yr un lleoliad.




**Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru: Cyflwyniad:** Briff Ymchwil

# Cysyniadau polisi addysg a gofal plentyndod cynnar

**Disgrifiwyd** buddsoddi mewn addysg plentyndod cynnar fel un o'r polisïau prin hynny sy'n deg yn gymdeithasol, gan ei fod yn cynyddu cyfle cyfartal a symudedd cymdeithasol, ac mae'n effeithlon yn economaidd, gan ei fod yn meithrin sgiliau a chynhyrchiant.

Eto, er y derbynnir hyn yn y rhan fwyaf o wledydd, gall dulliau gweithredu o ran polisi addysg a gofal plentyndod cynnar fod yn amrywiol iawn, ac mae hynny'n deillio o nifer o benderfynyddion sylfaenol fel y nodir isod.




*Penderfynyddion sylfaenol polisi addysg a gofal plentyndod cynnar* [1]

## Sut mae cymdeithasau yn ystyried plentyndod

Dadleuir bod polisi addysg a gofal plentyndod cynnar yn deillio o ddyfarniadau gwerth sylfaenol iawn y mae gwahanol gymdeithasau yn eu gwneud am blant a phlentyndod.

**1** Wedi'i addasu o'r Adolygiad Thematig rhyngwladol o Bolisi Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a gynhaliwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

Mewn rhai cymdeithasau, ystyrir bod plant yn 'llestri gweigion" ar ddechrau eu bywyd ac y'u gwneir yn 'barod i ddysgu' ac yn 'barod am yr ysgol' yn ystod y blynyddoedd cynnar. Yn gyffredinol, caiff eu gwerth ei fesur yn ôl cyrhaeddiad academaidd sy'n gysylltiedig â'u cyfraniadau economaidd a chymdeithasol fel '*dinasyddion y dyfodol*'.

Edrychir ar blant yn fwy *cyfannol* gan gymdeithasau eraill, lle mae plentyndod yn cael ei ystyried yn bwysig ynddo'i hun, lle y caiff pob plentyn ei werthfawrogi fel dysgwr unigryw a chymwys a gweithgar y mae angen ei annog a'i gefnogi. Ystyrir y plentyn fel unigolyn chwilfrydig, galluog a deallus, ac mae'n gyd-grëwr gwybodaeth y mae arno angen, ac y mae arno eisiau rhyngweithio â phlant ac oedolion eraill.

## Teulu o'i gymharu â'r Wladwriaeth *ac* Addysg o'i gymharu â Gofal

**Dangoswyd** sut mae'r safbwyntiau cymdeithasol hyn am blentyndod, yn eu tro, yn llunio'r safbwyntiau o ran (i) rhaniad a natur rolau a chyfrifoldebau priodol y wladwriaeth a'r teulu mewn perthynas ag addysg a gofal plentyndod cynnar, a (ii) y rhaniad rhwng rôl addysg ar gyfer gofal a datblygiad y plentyn.

Mewn gwledydd lle gellir dadlau mai'r farn bennaf yw bod plant yn *ddinasyddion y dyfodol* (e.e. Lloegr, yr Unol Daleithiau, Awstralia, yr Eidal, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd), arian gan y wladwriaeth sy'n cefnogi addysg plentyndod cynnar yn bennaf, ac maent yn pwysleisio'r sgiliau y dylai plant eu meistroli cyn iddynt fynd i'r ysgol gynradd. Mesurir ansawdd drwy ddulliau gwerthuso ffurfiol. Rhieni sy'n bennaf cyfrifol am drefniadau gofal a threfniadau o ran datblygiad plentyn, a phan fydd y wladwriaeth yn ariannu gofal plant, mae hynny'n bennaf er mwyn galluogi rhieni i weithio.

Lle y gellid barnu bod gan gymdeithasau farn fwy *cyfannol* am blentyndod, mae polisïau addysg a gofal plentyndod cynnar yn pwysleisio datblygiad a lles plentyn. Mewn gwledydd o'r fath (e.e. Denmarc, y Ffindir, Norwy a Sweden) mae trefniadau gofal ac addysg gyffredinol, integredig yn gyffredin. Yma, caiff ansawdd ei fesur yn wrth ystyried datblygiad cyfannol, ble y mae nodau ac amcanion ar gyfer y plentyn a bennwyd yn unigol ac yn lleol, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y plentyn ei hun. Er bod rhieni'n cael eu cefnogi i fynd i weithio, drwy ddarpariaeth gyffredinol, mae cyfle ar gyfer cyflogaeth yn sgil-gynnyrch ond nid yn brif swyddogaeth addysg a gofal cynnar.

Er bod rhywfaint o anghytundeb athronyddol ynglŷn â pha ddull yw'r gorau, canfu gwaith **ymchwil** bod ansawdd darpariaeth addysg a gofal plentyndod cynnar, a fesurir gan ffactorau sylfaenol fel cymarebau oedolion a phlant, a chymwysterau





staff, yn gwbl hanfodol. Dengys tystiolaeth y gall addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd gwael wneud mwy o ddifrod i blant na dim darpariaeth. Mewn gwledydd sy'n cadw at athroniaeth plentyndod fel 'llestri gweigion', **mae ansawdd yr addysg a gofal plentyndod cynnar yn is yn gyffredinol**, yn enwedig i blant o dan 3 oed ac i blant o deuluoedd tlotach. Mae gwahanu addysg a gofal yn cyfrannu at addysgeg anghyson a llai effeithiol (sef o ran y dulliau a'r arferion addysgu), ac mae gweithwyr gofal plant yn arbennig â statws isel, a llai o gymwysterau a hyfforddiant.

# Addysg a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru

Mae rhoi ystyriaeth i'r fframiau cysyniadol hyn yn rhoi cyfle i edrych o'r newydd ar addysg a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru, gan ddechrau gyda sut y caiff plentyndod ei ystyried gan y wladwriaeth, a chymdeithas yn gyffredinol.

Ers datganoli, bu ffocws cryf ar blant yng Nghymru. Mae llywodraethau wedi gosod anghenion plant yn flaenllaw ar yr agenda gwleidyddol yn gyson. Mae penodi'r Comisiynydd Plant cyntaf yn y DU, ac ymgorffori cyfraith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, hyrwyddo a chefnogi chwarae plant, a chyflwyno cwricwlwm blynyddoedd cynnar sy'n canolbwyntio ar y plentyn i gyd yn bolisïau sy'n awgrymu bod plentyndod yn cael ei werthfawrogi'n gynhenid.

Felly, gellid disgwyl y byddai model addysg a gofal plentyndod cynnar sy'n canolbwyntio ar blant wedi'i sefydlu, gyda phlant yn cael eu gwerthfawrogi 'yn awr' ac nid am yr hyn y gallent ddod yn y dyfodol yn unig. Er hynny, gellid dadlau bod polisi addysg a gofal plentyndod cynnar Cymru yn aml yn cael ei ystyried fel polisi sy'n mynd yn groes i drafodaeth gyfannol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

## Teuluoedd neu Blant yn Gyntaf?

Wrth edrych ar rôl rhieni o'i chymharu â rôl y wladwriaeth, mae gofal a datblygiad plant yn eu blynyddoedd cynnar yn cael ei ystyried fel cyfrifoldeb rhieni yn bennaf yng Nghymru. I blant o dan 3 oed, gwasanaethau plentyndod cynnar yw'r lleoedd amlycaf i leoli plant fel y gall eu rhieni fynd allan i weithio. Nodwyd y dull hwn yn aml fel cyfrwng i leihau tlodi teuluoedd a phlant, ond effeithir arno'n andwyol fwyfwy gan y cynnydd o ran **tlodi mewn gwaith**, ac nid yw'n mynd i'r afael ag anfanteision eraill yn ystod plentyndod.

Er bod cyllid y wladwriaeth wedi cynyddu faint o gyfleusterau gofal plant sydd ar gael a'i fforddiadwyedd, ychydig iawn o fuddsoddiad a fu o ran ansawdd. Mae cymwysterau gweithwyr ym maes addysg a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru **yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y gwledydd datblygedig** ac mae cyflogau yn y sector wedi lleihau rhwng 2005 a 2014. Yn y cyfamser, mae'r **Safonau Gofynnol** y mae'r rhan fwyaf o leoliadau addysg a gofal plentyndod cynnar yn gweithio i'w cyrraedd wedi'u gosod o fewn y **diffiniad o ofal** y gellid dadlau sy'n rhy gul i ddarparu dull cyfannol o weithio gyda phlant.



**Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru: Cyflwyniad:** Briff Ymchwil

Ymddengys mai dim ond pan fydd plant yn cyrraedd tair blwydd oed ac yn cael addysg gynnar ran-amser y Cyfnod Sylfaen y mae anghenion datblygiadol plant yn dod yn brif flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Hyd yn oed ar gyfer y grŵp oedran hwn, cyflwynir gofal plant yn bennaf fel gwasanaeth i rieni sy'n gweithio yn hytrach na chyfrwng datblygiadol ar gyfer plant. Mae hyn yn amlwg mewn cysylltiad â **dylunio** a **gwerthuso Cynnig Gofal Plant** Llywodraeth Cymru ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed, ac yn y **dadleuon** sydd wedi'u cynnal o ran ei weithredu.

## Addysg neu ofal?

Fel yng ngweddill y DU, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am addysg na gofal yng Nghymru. Mae addysg Cyfnod Sylfaen ar gael i bob plentyn 3 a 4 mlwydd oed, a ddarperir yn rhan-amser yn bennaf, mewn ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth gan addysgwyr â chyflog cymharol dda. Mae gofal plant, ar y llaw arall, ar gael o'u genedigaeth, ond caiff ei ddarparu gan ofalwyr anffurfiol, neu gan ddarparwyr economi gymysg sy'n cyflogi gweithlu sydd â statws, cymwysterau a chyflog isel, ac a ariennir gan rieni (gyda rhywfaint o gymorth cyllid gan y wladwriaeth). Mae'r system hollt hon o ddarparu addysg a gofal plentyndod cynnar hefyd yn cynnwys cyfundrefnau arolygu sy'n gosod gwahanol werthoedd ar ofal ac ar addysg, ac sy'n archwilio gwahanol ganlyniadau. Er bod hyn yn newid i rai lleoliadau addysg a gofal plentyndod cynnar, drwy **arolygiadau ar y cyd newydd dadleuir** bod y ddau reoleiddiwr, yn sylfaenol, yn ymgorffori dealltwriaeth wahanol o blant a gweithwyr, o ddiben ac o gyfrifoldeb.

### Ymyrraeth gynnar

Mae dull gweithredu mwy cyfannol o ran plentyndod cynnar wedi'i gynnwys yn yr egwyddorion sy'n tanategu'r rhaglenni **Dechrau'n Deg** a **Teuluoedd yn Gyntaf.** Yn y cynlluniau hyn, sydd wedi'u targedu at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, mae ymyrraeth yn digwydd i unioni effeithiau anfantais gynharach neu anfantais sydd wedi'i wreiddio. O ganlyniad, mae'r ffocws ar arfogi rhieni i allu darparu cymorth datblygu yn well, a darparu gwell 'amgylchedd dysgu yn y cartref' fel nad yw plant o dan anfantais pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Yn draddodiadol, dadleuwyd bod y dull wedi'i dargedu hwn yn fwy effeithiol na darpariaeth addysg a gofal plentyndod cynnar cyffredinol, y tybiwyd ei fod yn ehangu'r bwlch rhwng y plant lleiaf a'r plant mwyaf difreintiedig. Fodd bynnag, mae **astudiaethau** diweddar ar effeithiau **rhaglenni tebyg sydd wedi'u targedu**, sy'n ymdrin â phlant difreintiedig yn benodol, yn dangos nad yw cael addysg a gofal plentyndod cynnar yn cael yr effaith sylweddol ddisgwyliedig ar ddatblygiad plant. Ymhellach, canfu gwaith **ymchwil diweddar** ar gyflwyno addysg a gofal plentyndod cynnar cyffredinol yn Norwy o un oed ymlaen, bod y gwelliant hirdymor mwyaf o ran canlyniadau wedi bod i blant o deuluoedd ar incwm isel, gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar gymysgu plant o wahanol gefndiroedd.





## Beth yw'r ffordd ymlaen o ran addysg a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru?

Mae **dadansoddiadau** o bolisïau addysg a gofal plentyndod cynnar rhyngwladol yn pwysleisio pa mor bwysig yw nodi eu penderfynyddion sylfaenol, gan ddechrau gyda chydnabyddiaeth o'r safbwyntiau sydd gan gymdeithas am blant. Yng Nghymru, nid yw'r agwedd at blentyndod wedi bod yn destun trafodaeth gyhoeddus eang ac nid yw wedi ei fynegi'n amlwg gan wleidyddion. O ganlyniad, nid yw polisïau cyhoeddus o anghenraid yn deillio, mewn ffordd sylfaenol, o'r barnau sylfaenol am ei werth y mae cymdeithas yn eu ffurfio am y plentyn a phlentyndod.

Felly, y cam cyntaf wrth symud agenda addysg a gofal plentyndod cynnar yn ei flaen fyddai ystyried hyn yn fwy eglur, fel bod gan wneuthurwyr polisi well dealltwriaeth o'r camau y maent yn eu cymryd, neu yn peidio â'u cymryd, a'u bod yn fwy ymwybodol o ganlyniadau gweithredu neu ddiffyg gweithredu penodol. Mae hyn yn cynnwys cynnal trafodaeth ehangach ynghylch y tensiynau rhwng (i) rôl a chyfrifoldebau rhieni o'i chymharu â rôl y llywodraeth; a (ii) rôl addysg o'i chymharu â gofal o blant a'u datblygiad.

Unwaith y bydd y safbwyntiau hyn wedi'u mynegi'n glir, mae **astudiaethau** yn awgrymu bod angen ystyried nifer o gwestiynau a all fod o gymorth o ran darparu buddsoddiad mewn addysg a gofal plentyndod cynnar.

1. Beth: pa fathau o wasanaethau addysg a gofal plentyndod cynnar, o ba ansawdd, a pha gynnwys, dulliau ac arferion dysgu y dylid eu darparu?
2. I bwy: pwy ddylai elwa o'r gwasanaethau?
3. Faint: beth ddylai maint y ddarpariaeth a'r buddsoddiad o ran adnoddau fod?
4. Gan bwy: pwy ddylai dalu - y llywodraeth, y sector preifat, rhieni unigol - ac ym mha gyfrannau?
5. Sut: sut ddylai'r gwasanaethau gael eu strwythuro, eu trefnu a'u darparu?

Ystyrir y cwestiynau hyn yn fanwl yn y papurau dilynol yn y gyfres hon, pan fyddwn yn edrych ar y dystiolaeth gyfredol a thystiolaeth newydd o Gymru ac yn rhyngwladol.